# Arwain effeithiolrwydd timau

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi'r gofynion ar gyfer arwain effeithiolrwydd tîm. Mae'n cynnwys cydlynu rolau o fewn y tîm, meithrin arferion tîm, cefnogi cyfranogiad llawn, a chynnal safonau proffesiynol uchel.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. arwain ac annog y tîm i gymryd perchnogaeth dros ganlyniadau a gweledigaeth y gweithle
2. arwain y gwaith o weithredu systemau cyfathrebu, datblygu, monitro ac adolygu i gyflawni canlyniadau'r tîm a gweledigaeth y gweithle
3. cydweithio i gefnogi'r tîm i gymryd perchnogaeth dros gyfrifoldebau unigol a chyfrifoldebau cyffredinol
4. arwain a hybu cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau er mwyn parchu a gwerthfawrogi eraill
5. meithrin diwylliant o arweinyddiaeth ar y cyd a hybu arloesedd, creadigrwydd, dysgu a gwella perfformiad
6. modelu ac arwain safonau moesegol, ymarfer proffesiynol ac atebolrwydd
7. cyfathrebu'n broffesiynol ac yn effeithiol ag eraill
8. creu amgylcheddau sy'n cefnogi rhannu syniadau, safbwyntiau a phryderon i gydweithio'n well
9. arwain a rheoli timau drwy arferion newydd a chymhleth, yn ogystal â newid
10. cefnogi timau i reoli deinameg grŵp, datrys gwrthdaro a chanfod atebion i broblemau
11. grymuso timau i reoli eu harferion iechyd meddwl a llesiant meddyliol eu hunain
12. modelu arferion iechyd meddwl a llesiant meddyliol
13. cefnogi timau i fonitro ac adolygu perfformiad gan nodi meysydd i'w gwella
14. ategu gwerthoedd, cryfderau a chynnydd timau tuag at gyflawni canlyniadau
15. cefnogi timau i reoli eu hymrwymiadau gwaith ac i gadw at derfynau amser
16. datblygu a rhannu eich gwybodaeth a'ch sgiliau i arwain timau effeithiol
17. cwblhau'r cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer arwain effeithiolrwydd timau
18. myfyrio ar sut y gwnaethoch chi gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau wrth arwain effeithiolrwydd timau

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y systemau cyfathrebu, datblygu, monitro ac adolygu gwahanol sy’n cefnogi canlyniadau'r tîm a gweledigaeth y gweithle
2. sut mae annog y tîm i gymryd perchnogaeth dros ganlyniadau a gweledigaeth y gweithle
3. sut mae defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma i wreiddio arferion sy’n ystyriol o drawma mewn timau
4. pwysigrwydd arweinyddiaeth ar bob lefel yn y gweithle ac arweinyddiaeth gan ddinasyddion
5. rôl arweinyddiaeth ar y cyd wrth hybu diwylliant o arloesedd, creadigrwydd, dysgu a gwella perfformiad
6. pwysigrwydd safonau moesegol, ymarfer proffesiynol ac atebolrwydd uchel
7. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill i arwain effeithiolrwydd timau
8. dulliau ar gyfer ymgysylltu â thimau a sicrhau bod y cyfathrebu'n glir ac yn gynhwysol
9. dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol wrth weithio’n effeithiol ag eraill
10. ffactorau sy’n creu amgylcheddau seicolegol diogel ac sy’n annog rhannu syniadau, safbwyntiau a phryderon
11. sut mae arddangos empathi a gwrando’n weithredol
12. dulliau o ryngweithio a sut y gallant effeithio ar waith tîm
13. dylanwad diwylliant, cefndir ac ysbrydolrwydd wrth weithio’n effeithiol ag eraill
14. sut mae ymateb i faterion a phryderon a allai godi wrth weithio gydag eraill
15. pwysigrwydd hybu urddas, caredigrwydd a thosturi wrth weithio gydag eraill
16. technegau a dulliau ar gyfer cefnogi rheoleiddio emosiynol, gwytnwch a llesiant timau
17. sut mae cefnogi timau i fonitro ac adolygu perfformiad gan nodi meysydd i’w gwella
18. pwysigrwydd ategu gwerth a chryfderau timau, yn ogystal â'u cynnydd tuag at gyflawni canlyniadau
19. sut mae rheoli pryderon am berfformiad
20. effaith blaenoriaethau gwaith a sut mae cefnogi timau mewn cyfnodau prysur a llawn straen
21. sut mae defnyddio hyfforddi a mentora i arwain effeithiolrwydd timau

22. eich cryfderau arwain, meysydd i'w datblygu a strategaethau gwella
23. sut mae datblygu a rhannu eich gwybodaeth a'ch sgiliau i arwain timau effeithiol
24. sut mae defnyddio technoleg ddigidol newydd a datblygol i arwain effeithiolrwydd timau
25. egwyddorion cynaliadwyedd a sut mae arwain timau'n effeithiol i integreiddio'r egwyddorion hyn mewn ymarfer bob dydd
26. y cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer arwain effeithiolrwydd timau
27. theorïau sy'n berthnasol i arwain effeithiolrwydd timau
28. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a'r canllawiau perthnasol ar gyfer arwain effeithiolrwydd timau
29. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth arwain effeithiolrwydd timau
30. sut mae eich profiadau personol a'ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio wrth arwain effeithiolrwydd timau, a sut i fynd i'r afael â hyn
31. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth arwain effeithiolrwydd timau

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

Arwain effeithiolrwydd timau

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD46 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Arwain, effeithiolrwydd timau, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |